

# Atalnodi

Marc atalnod	Term	Eglurhad	Enghraifft
.	Atalnod llawn	Er mwyn dangos diwedd brawddeg.	Gwelais Siân a'i chi ddoe.
'	Atalnod (coma)	Er mwyn rhestru pethau mewn brawddeg. Er mwyn dangos saib byr mewn brawddeg.	Yn yr ysgol dysgais sut i ysgrifennu, darllen, cyfrif, canu, dawnsio a chwarae pêl.
?	Marc cwestiwn/ Gofynnod	Er mwyn dangos diwedd cwestiwn.	Sut wyt ti?
!	Ebychnod	Er mwyn dangos syndod / sioc. Wrth roi gorchymyn.	Byddwch yn dawel!
ABC	Prif lythyren	Er mwyn dangos enw pobl, lleoedd a theitlau.	Ar y rhaglen 'Pobl y Cwm' nos Wener roedd Hywel yn mynd i Gaerdydd.
" . . " .	Dyfyn-nodau	O gwmpas geiriau sy'n cael eu siarad / dweud gan berson.	"Weles i Elfed ddoe," meddai hi.
' o'r	Collnod	Er mwyn dangos bod llythyren ar goll.	o'r, i'r, sy'n, o'n, hi'n, mae'n, mae'r, drwy'r, yw'r, a'ch, a'i, a'u
' . . . '	Dyfyn-nodau sengl	O gwmpas teitl cerdd, stori, erthygl, neu raglen radio / teledu.	Yn y gyfrol <u>Teithio Cymru</u> mae erthygl dda o'r enw 'Dringo'r Wyddfa'.

:	Colon	<p>O flaen rhestr.</p> <p>O flaen ail ran o'r frawddeg sy'n egluro mwy neu fanylu mwy ar ran gyntaf y frawddeg.</p> <p>O flaen dyfyniad hir.</p>	<p>Cyn dod i'r ysgol rhaid prynu'r canlynol: crys, tei, côt a chap.</p> <p>Mae darllen yn addysg ynddo'i hun: cewch ddysgu llawer heb godi o'ch sedd.</p> <p>Ar gychwyn y gerdd dywed y bardd:  "Gwelais ei fen liw dydd  Ar ffordd yr ucheldir iach  A'i ferlod yn pori'r ffridd  Yng ngofal ei epil bach ..."</p>
;	Hanner colon	<p>Er mwyn rhannu brawddeg pan fo atalnod yno'n barod.</p> <p>Er mwyn cysylltu dwy frawddeg sy'n trafod yr un pwnc.</p>	<p>Yn y cyfarfod roedd Mrs Jones, y Cadeirydd; Mr Morgan, y Trysorydd a minnau.</p> <p>Mae mynd at y deintydd wedi mynd yn gostus; mae prisiau wedi codi'n sylweddol eleni.</p>
( )	Cromfachau	<p>O gwmpas geiriau sy'n cael eu dweud gyda llaw neu wrth fynd heibio.</p>	<p>Darllenais y llyfr gartref (fel yr addewais), ond ni chefais flas arno.</p>
- Mam-gu	Cysylltnod	<p>Defnyddio mewn rhai geiriau.</p>	<p>ôl-ddyled, di-sail, ling-di-long, ôl-ddyddio, mam-gu, tad-cu, pen-blwydd</p>